**Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, ar ddydd Mercher 11 Mai 2011 am 9:30 a.m.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr I W Armstrong, J R Bartley, B Blakeley, J Butterfield, W L Cowie, J A Davies, J M Davies, M Ll Davies, P A Dobb, M J Eckersley, G C Evans, R L Feeley, C Hughes, R W Hughes, T R Hughes, E R Jones, H Ll Jones, G M Kensler, L M Morris, P W Owen, D Owens, A G Pennington, D I Smith, D A J Thomas, S Thomas, C H Williams

**HRFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (G Boase), Y Prif Gyfreithiwr (S Cordiner), Rheolwr Rheolaeth Datblygiad (P Mead), Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (G Boase), Arweinydd Tîm [Proses y Pwyllgor] (I Weaver; Arweinydd Tîm [Cefnogaeth]; (G Butler); Swyddog y Gwasanaethau Cwsmer (J Williams), a'r cyfieithydd (Sandra Williams); Mynychodd Sean Awbery (Diogelwch y Cyhoedd) ar gyfer Eitem 6 – Ysgol Uwchradd Prestatyn.

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM EU HABSENOLDEB GAN**

Y Cynghorwyr A Smith, D Hannam, I A Gunning, J Bellis, J Thompson-Hill

**11 MATERION BRYS**

Gofynnwyd i'r Aelodau ddatgan unrhyw ddiddordeb personol neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitemau busnes a arenwyd i'w hystyried yn ystod y cyfarfod.

Datganodd y Cynghorydd S Thomas ddiddordeb yn eitem 4 (40/2009/1622) (Stryd Dolafor, Llanelwy) a datganodd y Cynghorydd C H Williams ddiddordeb yn eitemau 1 & 1A –(01/2011/0335) 17 Pwll y Grawys, Dinbych.

**NEWIDIADAU I'R AELODAETH**

Bydd y cynghorwyr canlynol, yn unionsyth, yn dod yn aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio - Y Cynghorwyr R W Hughes, J Butterfield, M Ll Davies gan ddisodli'r Cynghorwyr P Duffy, J Chamberlain-Jones ac N J Hughes

**Y WEITHDREFN BLEIDLEISIO**

Cafodd yr offer bleidleisio ei wirio a chafwyd ei fod yn gweithio'n foddhaol..

**PENODIAD CADEIRYDD**

Gwnaeth y Cynghorydd P Owen, yn cael ei eilio gan y Cynghorydd T R Hughes, gais am bleidlais gyfrinachol pe byddai angen cynnal cystadleuaeth am swydd y Cadeirydd.

Wedi i bleidlais gael ei chynnal fe gytunwyd i wneud hynny.

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer swydd y Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn nesaf..

Enwebwyd y Cynghorydd S Thomas gan y Cynghorydd E R Jones, gyda'r Cynghorydd R W Hughes yn ei eilio.

Enwebodd y Cynghorydd G Kensler, yn cael ei heilio gan y Cynghorydd M Eckersley, y Cynghorydd M Ll Davies.

O ganlyniad i''r bleidlais gyfrinachol cafodd y Cynghorydd S Thomas ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Aeth y Cynghorydd S Thomas i'r Gadair a diolchodd i bawb am yr anrhydedd..

**PENODIAD IS-GADEIRYDD**

Gyda'r Cynghorydd P Owen yn ei heilio, gwnaeth y Cynghorydd G Kensler gais am i bleidlais gyfrinachol gael ei chynnal pe byddai angen cynnal cystadleuaeth am swydd y Cadeirydd.

Cytunwyd ar y drefn honno wedi i'r bleidlais gael ei chynnal.

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer swydd Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

Wedi i'r bleidlais gael ei chynnal, etholwyd y Cynghorydd J R Bartley yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf..

**12 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU**

Cafodd adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Diogelwch y Cyhoedd [a ddosbarthwyd ymlaen llaw], oedd yn manylu ar y cynlluniau a gyflwynwyd, sef rhai oedd yn galw am benderfyniad gan y Pwyllgor, ei gyflwyno.

***PENDERFYNWYD fod:****:-*

*(a) Argymhellion y Swyddogion, fel y cânt eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynir, yn cael eu cadarnhau a chaniatâd neu wrthodiad cynllunio yn cael ei gyhoeddi yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Y Ddeddf Cynllunio ac Iawndal ,1991, Rheoliadau Hysbysebu Cynllunio Gwlad a Thref, 1994), a / neu Ddeddf Gynllunio Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r datblygiad arfaethedig yn y cynlluniau canlynol fel y ceir manylion amdanynt yn y sgediwl a gyflwynir yn awr.:-*

*(b) Y cynlluniau canlynol yn ddibynnol ar yr amodau y ceir manylion amdanynt yn y sgediwl a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| Cais Rhif. | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 43/2010/1069/PO | Yn dilyn ystyriaeth i 2 lythyr ychwanegol o gynrychioliad o Gyngor Tref Prestatyn a Pheiriannydd Draeniad CSDd.<br>Datblygiad 0.045 hectar o dir drwy godi 2no. annedd a dymchwel yr hyn a fu'n dŷ popty (cais amlinellol – cedwir pob mater wrth gefn)<br>Tir tu ôl i **91 Ffordd Victoria Road yn ymyl 3 Rhodfa Parc Victoria, Prestatyn**<br>**CANIATÁU**<br>Codwyd mater parcio ar ymyl y ffordd gan y Cynghorydd A Pennington gan fod hynny'n cyfyngu'r llif traffig i un lôn. Y Swyddogion i ofyn i Priffyrdd gydweithredu gyda'r Cynghorydd A Pennington ynghylch y mater hwn. |
| 45/2011/0220/PF | Cafodd 7 llythyr ychwanegol o gynrychiolaeth gan Gyngor Tref Y Rhyl, Chris Ruane AS, R.A. Worsnop (Marchnad Gymunedol Y Rhy), Bysiau Arriva Cymru, , D Hughes, V Jones ac A Thomas (Strategaeth Dinas Y Rhyl) eu hystyried<br>Defnydd dros-dro o dir fel marchnad ar gyfer gwerthu Dosbarth A1 (nwyddau adwerth) a Dosbarth A3 (bwydydd poeth a diodydd) ar ddyddiau Iau a Sadwrn (gyda 14 diwrnod ychwanegol mewn unrhyw flwyddyn) (ar sail adolwg)..<br>**Cefn Neuadd y Dref, rhan o Stryd y Farchnad, rhan o Glanglasfor a rhan o Stryd Fawr Y Rhyl**<br>**CANIATAU**<br>**Amodau diwygiedig** |

1 Bydd y defnydd a ganiateir yma yn dirwyn i ben ar neu cyn 31 Hydref 2012.
2 Gan roi ystyriaeth i'r manylon a gyflwynwyd, dim ond ar ddyddiau Iau a Sadwrn, rhwng 10.00 ac 17.00 ar y dyddiau hynny y caniateir i'r farchnad weithredu.
3. Dileu ac ail-rifo rhif 5 fel rhif 4.
5. Ni chaniateir i unrhyw offer ffair gael ei ddefnyddio ar unrhyw adeg mewn cysylltiad â'r defnydd o'r tir fel marchnad.
Rheswm: Er mwyn sicrhau cymeriad a gwedd canol y dref.

40/2010/1430/PF

**SIARADWR YN ERBYN: DAVID COOPER**
**SIARADWR O BLAID: JAMIE GROVES**
Rhoddwyd ystyriaeth i 13 llythyr ychwanegol o gynrychioliad oddi Wrth Gyngor Tref Prestatyn – 5 person o blaid – 8 person yn erbyn.
Ailwampio'r cyrtiau tenis presennol gan gynnwys ynddynt arwyneb pob tywydd o wair synthetig ar sylfaen o dywod fel ei fod yn addas ar gyfer pêl-droed, tenis a phêl-rwyd. Bwriedir codi ffens o gwmpas y terfyn a gosod llifoleuadau.
**Ysol Uwchradd Prestatyn, 2 Rhodfa'r Tywysog, Prestatyn**
**CANIATAU**
Diwygiadau i'r Amodau
Amod 6 – Ni ellir dechrau defnyddio'r safle nes bydd y gwahanfur acwstig arfaethedig wedi ei godi ac ni chaniateir i lefelau'r sŵn sy'n codi o'r safle fod yn uwch na'r lefelau y cyfeirir atynt yn yr asesiad sŵn sy'n rhan o'r cais.
Amod 7 – Bydd y llifoleuadau yn cael eu codi mewn modd sy'n unol â'r manylion a gyflwynwyd ac ni chaniateir i lefelau'r golau fod yn uwch na'r rhai y cyfeirir atynt yn yr asesiad golau sy'n rhan o'r cais.
Amod ychwanegol:
8. Ni chaniateir i unrhyw ddatblygiad gael ei gychwyn nes bydd cymeradwyaeth ysgrifenedig wedi ei derbyn gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ynghylch manylion yr arwyddion cyfeirio ar gyfer noddwyr y cyfleusterau sy'n ceisio mynediad ar droed neu mewn cerbyd. Ni ellir dechrau defnyddio'r cyfleuster nes bydd yr arwyddion dan sylw wedi eu codi.
Rheswm: Er mwyn sicrhau buddiannau eiddo preswyl cyfagos pan fydd pobl yn defnyddio'r cae, yn mynd allan o'r adeiladau, yn defnyddio'r maes parcio ayb..

(ii) Gwrthodiadau

01/2011/0335/PC

Datganodd y Cynghorydd C H Williams ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth arno..
Cadw drws blaen a amnewidiwyd.
**7 Pwll y Grawys, Dinbych**
**GWRTHOD**

ENF/2011/00002

Trosedd amnewidiad: - Amnewid drws blaen heb ganiatâd mewn Ardal Cadwraeth.
**17 Pwll y Grawys, Dinbych**
Y dylid awdurdodi'r canlynol::
(i) Cyhoeddi Rhybudd Gorfodaeth i sicrhau bod drws uPVC na roddwyd caniatâd iddo yn cael ei amnewid am ddrws coed traddodiadol gyda phanelau arno, sef un sydd yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
(ii) Cychwyn achos erlyn, neu ddilyn y camau priodol dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y person neu'r personau y mae Rhybudd Gorfodaeth neu unrhyw rybudd o'r fath yn cael ei roi iddynt, neu'r sawl y bydd angen gweithredu'n gyfreithiol yn eu herbyn os ydynt yn methu cydymffurfio gyda'r Rhybudd Gorfodaeth.

| | |
|---|---|
| 03/2009/1535/PC | Cadw byngalo unllawr [cartref symudol] fel swyddfa i reolwr y safle.<br>**Parc Gwledig Dŵr Gwyn, Stryd Berwyn, Llangollen**<br>**GWRTHOD** |
| 40/2009/1622/PC | Datganodd y Cynghorydd S Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y siambr tra oedd y mater dan sylw yn cael ei drafod. Aeth y cynghorydd J R Bartley i'r Gadair..<br>Parhau gyda'r defnydd o ran o dir amaethyddol i ddiben storio cerbydau masnachol mewn perthynas â busnes oddi ar y safle a rhan o'r tir fel man storio carafanau dros y gaeaf. Cadw'r ffens derfyn bresennol.<br>**Dolafon, Ffordd Y Rhyl, Llanelwy**<br>**GWRTHOD**<br>Soniodd y Cynghorydd am y perygl i seiclwyr ar y trac seiclo cyfagos**.** Y Swyddog i gynghori Priffyrdd mewn perthynas ag arwyddion rhybudd yn yr ardal. . |

(iii) Gohirio

| | |
|---|---|
| 30/2010/0584PF | Fel canlyniad i ystyriaeth a roddwyd am yr ymweliad safle a gynhaliwyd ar ddydd Llun, 9 Mai 2011 a'r llythyrau o gynrychioliad ychwanegol a dderbyniwyd gan CCGC, 14 o unigolion a deiseb a arwyddwyd gan 113 people<br>Codi 11no. Annedd a'r gwaith perthynol.<br>**Tir yn ymyl Tafarn Trefnant, Trefnant, Dinbych.**<br>**GOHIRIO**<br>**P**enderfynwyd GOHIRIO er mwyn rhoi ystyriaeth i ganiatáu cyfle i ymchwilio natur gwrthwynebiad CCGC. |

(iv) Eitem frys

Cafodd adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio Rheoleiddio ei ddosbarthu mewn perthynas ag:-

**Ymchwiliad Cynllunio**

Tir yn Ne-ddwyrain Y Rhyl, rhwng Bro Deg a Ffordd Dyserth, Y Rhyl

Manylion am Gamau2 a 3 y datblygiad gan gynnwys lleoliad, dyluniad a gwedd allanol 217 o dai annedd, tirweddu, ffyrdd mynediad a'r gwaith cysylltiol a gyflwynwyd yn unol ag amodau 1 a 7 o'r caniatâd cynllunio amlinellol rhif. 45/2004/1376/PO a chais am i ddau Aelod gynrychioli'r Pwyllgor yn yr Ymchwiliad Apêl.

Fel cynigiwr ac eilydd y gwrthodiad caniatâd cynllunio penderfynwyd enwebu'r Cynghorwyr B Blakeley and I A Gunning i fynychu'r Gwrandawiad Cynllunio i roi tystiolaeth ar ran y Pwyllgor cynllunio.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:45am

********